

# Perchenogion y Chwarel

Ystâd y Penrhyn oedd berchen y chwarel lechi ac yn ei rheoli o ddiwedd y 18fed ganrif hyd y 1960au. Yn y cyfnod hwnnw, llechi oedd un o'r diwydiannau pwysicaf yng Nghymru. Yn ei anterth, cyflogai Chwarel y Penrhyn dros 3000 o ddynion a chynhyrchai 120,000 tonn o lechi bob blwyddyn. Fwy neu lai, Richard Pennant wnaeth sefydlu'r diwydiant, a gellir dweud ei fod wedi trawsffurfio economi'r sir gyfan.

Adeiladodd Ystâd Penrhyn dai i weithwyr y chwarel. Adeiladodd Richard Pennant bentref i'w weithwyr yn Llandegai, ac yn ei eiriau ei hun, ni chaniatawyd agor 'corrupting alehouse' yno. Roedd y tai a adeiladwyd i'r tenantiaid a'r gweithwyr yn gosod safon newydd ar gyfer y gymdogaeth gyfan. Talodd Penrhyn hefyd am adeiladu ysbyty i'r chwarelwyr a darparodd yr ystâd arian i'w chynnal a'i chadw.

Arglwydd Penrhyn a phwyllgor y streic



Roedd byd o wahaniaeth rhwng bywydau teulu'r Penrhyn a bywydau'r chwarelwyr a thenantiaid yr ystâd. Roedd Cynol Edward Douglas Pennant yn casglu celf ac yn adnabod Gladstone, a fu'n ymweld â Phenrhyn. Rhoddodd dir i adeiladu ysgolion ac eglwysi ac roedd

yn cefnogi gwaith cyhoeddus. Etifeddodd George Sholto Douglas-Pennant yr ystâd wedi marwolaeth ei dad yn 1886. Cofir ef yn bennaf am y streic fawr yn 1900-3. Ymddiddorodd mewn archaeoleg drwy gydol ei fywyd a thanysgrifiodd i gyhoeddiadau ei gefnder, y Cadfridog Pitt Rivers.

## TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.